**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 16-01(p7)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **28 Tachwedd 2001** |
| **Amser:** | **14.00 - 17.30** |
| **Lle:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **YSTADEGAU CYMORTH RHANBARTHOL DEWISOL (RSA) AR GYFER 2001-02** |

**Pwrpas**

Hysbysu'r Pwyllgor o nifer a dosbarthiad y cynigion Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn ystod dau gwarter cyntaf 2001-02. Defnyddir y fformat y gofynnwyd amdano yn EDC-02-01 wrth gyflwyno gwybodaeth yn y papur hwn. Dyma'r ail adroddiad ar y fformat hwn, fel y crybwyllwyd eisoes, ni ellir gwneud unrhyw gymariaethau hanesyddol.

**Cyflwyniad**

Mae Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) yn gymorth i gefnogi prosiectau buddsoddi cyfalaf yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir sy'n creu swyddi newydd neu'n diogelu swyddi sydd eisoes yn bodoli. Dyma'r prif ffordd o roi cymhelliant ariannol i ddiwydiannau er mwyn eu hannog i fuddsoddi a thyfu yng Nghymru. Nod y cynllun yw lleihau anghydraddoldeb o ran y cyfleoedd am swyddi ardaloedd a gynorthwyir ac mewn ardaloedd nas cynorthwyir. Mae RSA yn gynllun cymeradwy o dan ganllawiau cymorth rhanbarthol cenedlaethol y Comisiwn Ewropeaidd ac fe'i gweithredir yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban o dan fframwaith gyffredinol Prydain.

**Manylion y cynigion a wnaed ers 1 Ebrill 2001**

- Yn ystod chwe mis cyntaf 2001-02, gwnaed 131 cynnig RSA i gwmnïau, sef cyfanswm o £88.4 miliwn. Mae dros £407 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau cysylltiedig a rhagwelir y bydd y prosiectau yn creu 4,797 o swyddi newydd ac yn diogelu 3,025 o swyddi cyfredol. Derbyniwyd 103 o'r cynigion hyd yn hyn.

Dadansoddiad fesul mathau o brosiectau:

| Math o Brosiect | Nifer | Y Swm a Gynigir £m | Costau'r prosiect £m | Swyddi Newydd | Swyddi a Ddiogelir |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwmnïau/ gweithfeydd newydd | 37 | 24.6 | 93.5 | 1,817 | 137 |
| Gweithgaredd newydd ar safle presennol | 28 | 13.4 | 34.2 | 676 | 841 |
| Trosglwyddo i safle newydd | 18 | 11.6 | 132.1 | 713 | 199 |
| Moderneiddio/ ehangu safleoedd presennol | 47 | 38.6 | 147.0 | 1,591 | 1,781 |
| Prynu Cyfran Rheolwyr | 1 | 0.15 | 0.7 | 0 | 67 |

- Gwnaed oddeutu 50% o'r cynigion i gwmniau llai na 10 mlwydd oed

- Gwnaed 31 cynnig, gwerth £22.6m a 1,923 o swyddi newydd/wedi'u diogelu, i'r sector gwasanaethau. Mae'r 100 o gynigion sy'n weddill (£65.8m a 5,899 o swyddi) yn gysylltiedig â'r sector gweithgynhyrchu.

- Mae cyfartaledd lefelau cyflog pob prosiect yn amrywio o £10,000 i £28,700, a thua £16,900 yw'r cyfartaledd cyffredinol ar draws pob prosiect.

2. Dyma'r gwahaniaeth rhwng mentrau bach a chanolig eu maint (SMEs) a chwmniau mawr:

| | Nifer | Gwerth y cynnig | Cost y Prosiect | Swyddi Newydd | Swyddi Wedi'u Diogelu | Cyfartaledd Amser ar Gyfer Prosesu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | | | (Diwrnod) |
| Mawr | 28 | 69,139,000 | 302,886,000 | 3,061 | 2,837 | 56 |
| SMEs | 103 | 19,248,112 | 104,592,727 | 1,736 | 188 | 44 |

3. Dyma'r gwahaniaeth rhwng cwmniau'r DU a chwmnïau tramor:

| | Nifer | Gwerth y cynnig | Cost y Prosiect | Swyddi Newydd | Swyddi Wedi'u Diogelu | Cyfartaledd Amser ar Gyfer |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | Prosesu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | | | (Diwrnod) |
| DU | 100 | 32,827,112 | 200,797,837 | 2,359 | 785 | 44 |
| Cwmnïau Tramor | 31 | 55,560,000 | 206,680,890 | 2,438 | 2,240 | 55 |

Roedd tua 23% o'r cynigion yn rhai ar gyfer prosiectau gan gwmnïau tramor. Mae'r rhain yn cynrychioli tua 63% o gyfanswm y grant a gynigir yn llawn a 60% o gyfanswm y swyddi sy'n debygol o gael eu creu neu'u diogelu. Mae hyn yn dangos bod maint y prosiectau sy'n eiddo i gwmniau o'r tu allan i'r DU dipyn yn fwy. Mae cyfartaledd y grant ar gyfer pob swydd yn is ar gyfer cwmniau'r DU, sef £10,441 o'i gymharu â £11,877 ar gyfer cwmniau tramor.

4. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r cynigion fesul ardal Awdurdod Unedol:

| Cyfanswm ar gyfer ardaloedd Awdurdodau Unedol | Nifer | Gwerth y Cynnig | Cost y Prosiect | Swyddi Newydd | Swyddi Wedi'u Diogelu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | | |
| Blaenau Gwent | 11 | 10,715,200 | 30,701,000 | 428 | 166 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 5 | 5,671,000 | 12,621,300 | 238 | 505 |
| Caerffili | 12 | 8,690,000 | 38,015,550 | 797 | 26 |
| Caerdydd | 14 | 19,861,500 | 150,245,585 | 1,228 | 136 |
| Sir Gaerfyrddin | 6 | 8,402,812 | 22,673,179 | 28 | 836 |
| Ceredigion | 2 | 275,000 | 1,201,875 | 33 | 0 |
| Conwy | 3 | 175,000 | 543,240 | 13 | 2 |
| Sir Ddinbych | 7 | 4,260,000 | 16,906,760 | 156 | 225 |
| Sir y Fflint | 8 | 1,960,000 | 13,671,130 | 298 | 77 |
| Gwynedd | 6 | 600,000 | 2,076,694 | 63 | 9 |
| Merthyr Tudful | 4 | 910,000 | 2,650,000 | 71 | 5 |
| Sir Fynwy | 1 | 2,000,000 | 6,125,000 | 0 | 224 |
| Castell-nedd a Phort Talbot | 10 | 1,869,000 | 5,653,020 | 107 | 257 |
| Casnewydd | 4 | 510,000 | 3,099,200 | 103 | 0 |
| Sir Benfro | 5 | 352,000 | 1,383,464 | 26 | 32 |
| Powys | 1 | 1,255,000 | 7,402,000 | 77 | 0 |
| Rhondda Cynon Taf | 15 | 4,288,600 | 17,406,930 | 261 | 172 |
| Abertawe | 6 | 8,170,000 | 45,097,000 | 397 | 0 |
| Tor-faen | 5 | 3,975,000 | 10,015,000 | 271 | 89 |
| Bro Morgannwg | 4 | 1,425,000 | 7,871,000 | 183 | 144 |
| Ynys Môn | 2 | 3,022,000 | 12,119,800 | 19 | 120 |
| **Cyfanswm** | **131** | **88,387,112** | **407,478,727** | **4,797** | **3,025** |

Noder : Nid yw Wrecsam wedi'i gynnwys yn y tabl hwn gan nad yw'n ardal sy'n gymwys am RSA.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

Dylai'r Pwyllgor nodi'r ffigurau cyfredol am gynigion RSA yng Nghymru ar gyfer 2001-02.

**Yr Is-adran Buddsoddiadau a Rheoli Corfforaethol**